Cyngor Tref Llandeilo Fawr

Llandeilo Fawr Town Council

Cofnodion o Bwyllgor Cyllid Cyngor Tref Llandeilo a gynhaliwyd ddydd Mercher 13eg Chwefror, 2008 yn Neuadd y Sir, Llandeilo am 8.00 pm

Presennol: Cyng Ieuan Gwyn, Y Maer Cyng Richard Wallace, Dirprwy Faer Cyng Edward Thomas, Cyng Colin Jenkins, Cyng Dawn Wallace, Cyng Hugh Towns, Cyng Christopher Parish, Cyng Ros Bellamy, Cyng Julia Jones
Mr Roger Phillips, Clerc y Dref; Mr Des Davies, Swyddog Technegol.

Ymddiheuriadau : Cyng Roy Davies, Swyddog Cyllid Christopher Plummer
Mynegodd y Cadeirydd, Cyng Ieuan Gwyn ei gydymdeimlad â Mr Plummer ar farwolaeth ei dad.

Cof 264/ Chwefror/ 08 Anfonebau i'w talu.
Penderfynwyd y dylid talu'r anfonebau canlynol

WCVA (Cyflogau Ionawr 08)	£ 186.91
WCVA (Gweinyddiaeth Ionawr 08)	£ 35.54

Cynigiwyd gan y Cyng Richard Wallace ac eiliwyd gan y Cyng Colin Jenkins. Roedd pawb o blaid.

Cof 265 / Chwefror /08 Balansau'r Cyfrifon
Yn absenoldeb y Swyddog Cyllid cytunwyd y dylid eu cyflwyno i gyfarfod o'r Cyngor Llawn ar y 27ain Chwefror.

Cof 266/ Chwefror / 08 Balansau'r Arddangosfa Tân Gwyllt ar 13.2.08
Rhoddodd y Clerc adroddiad o'r hyn sy'n weddill i'w dalu o'r hysbysebion yn y rhaglen. Argymhellwyd fod y Clerc yn ysgrifennu i ofyn am yr arian o fewn pythefnos gan y busnesau hynny sydd heb dalu.
Bydd yr is-grŵp tân gwyllt yn ystyried sylwadau a wnaed yn ystod y cyfarfod.

Cof 267 / Chwefror / 08 Materion Ariannol Eraill

1. LlCC – Gwybodaeth ar gymeradwyo'r benthyciad. Atgoffodd y Cadeirydd, Cyng Ieuan Gwyn aelodau'r cyfarfod bod tua £30,000 wedi bod yn rhan o'r arian cyfatebol, ni ellir defnyddio'r balans ar gyfer unrhyw ddibenion eraill. Pan fydd y cyfrifon terfynol ar gael, yna bydd LlCC yn ad-dalu'r gweddill.
2. Dyfynbrisau peintio ac addurno'r swyddfa. Gofynnodd y Swyddog Technegol i'r Cadeirydd agor y rhain yn ystod y cyfarfod. Mae'r dyfynbrisau fel a ganlyn :

ADS Painting & Decorating Services	£ 695.00 (dim taw)
Prospect Construction	£ 575.00 (gyda taw)
David Siggery	£ 688.55 (gyda taw)

Cynigiwyd gan y Cyng Hugh Towns y dylid derbyn y dyfynbris isaf ac eiliwyd gan y Cyng Cllr Richard Wallace. Roedd pawb o blaid.

3. Mae'r Swyddog Technegol wedi derbyn dyfy bris o £200 ar lafar ar gyfer darparu a gosod teils carped yn y Swyddfa gan garpedi Beechwood. Cynigiwyd gan y Cyng Richard Wallace, eiliwyd gan y Cyng Ros Bellamy y dylid derbyn hyn. Roedd pawb o blaid.

4. Mae'r Swyddog Technegol wedi derbyn dyfynbris ar gyfer atgyweirio'r byrddau a meinciau sy'n eiddo i'r Cyngor. Y dyfynbris gan James Ash ar gyfer atgyweirio'r 11 mainc a 3 bwrdd, bydd yn cynnwys eu symud i'r gweithdy a'u dychwelyd oedd £980 gyda taw. Cynigiodd y Cyng Colin Jenkins y dylid derbyn hyn. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng Richard Wallace. Roedd pawb o blaid ei argymell i'r Cyngor Llawn.

Cof 268 / Chwefror/ 08 Gohebiaeth sy'n ymwneud â Chyllid

1. Adroddodd y Clerc ar gyfarfod a gafodd gyda Lisa Jenkins o Menter Bro Dinefwr mewn perthynas â grantiau posib ar gyfer dathliadau Canmlwyddiant Parc Penlan.
   Bydd y Dirprwy Faer yn mynd â'r sylwadau i gyfarfod nesaf o'r is-bwyllgor sy'n trefnu'r digwyddiad.

Cof 269 / Chwefror / 08 Unrhyw eitemau eraill o fusnes sydd am resymau arbennig, yn ôl penderfyniad y Cadeirydd yn haeddu sylw brys, yn unol ag adran 100B(4)(B) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.55 pm.